FFURFLEN RHW28

# HYSBYSIAD O DERFYNU CONTRACT MEDDIANNAETH OHERWYDD CEFNU AR YR ANNEDD

*Mae'r ffurflen hon i'w defnyddio gan landlord i roi hysbysiad i ddeiliad contract o dan adran 220(5) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 fod y contract meddiannaeth ar ben am fod deiliad y contract wedi cefnu ar yr annedd a bod y landlord yn adennill meddiant o'r annedd heb achos llys. Rhaid i'r hysbysiad hwn fod wedi ei ragflaenu gan hysbysiad o dan adran 220(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 (**Ffurflen RHW27**).*

| **Rhan A: Landlord** |
|---|
| Enw:<br><br>Cyfeiriad: |

| **Rhan B: Deiliad neu Ddeiliaid y Contract** |
|---|
| Enw(au): |

| **Rhan C: Isddeiliad neu Isddeiliaid a Lletywr neu Letywyr** |
|---|
| Enw(au) (*os yw'n gymwys*):<br><br>*Rhaid i'r landlord roi copi o'r hysbysiad hwn i unrhyw letywr neu isddeiliad i ddeiliad neu ddeiliaid y contract.* |

| **Rhan D: Annedd** |
|---|
| Cyfeiriad: |

| **Rhan E: Hysbysiad o Fwriad i Derfynu Contract Meddiannaeth** |
|---|
| Yn dilyn yr hysbysiad o dan adran 220(3) o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016 a roddwyd ar [*dyddiad yr hysbysiad blaenorol*] …………………………, mae'r cyfnod rhybuddio wedi dod i ben ac mae'r landlord wedi ei fodloni eich bod chi, ddeiliad neu ddeiliaid y contract, wedi cefnu ar yr annedd uchod.<br><br>Mae'r landlord yn hysbysu bod contract meddiannaeth yr annedd uchod yn dod i ben ar [*dyddiad*]…………………………<br><br>Bydd y landlord yn adennill meddiant o'r annedd uchod heb achos llys ar [*dyddiad*] …………………………<br><br>Ymdrinnir ag unrhyw eiddo personol sy'n dal yn yr annedd ar ôl ichi gefnu arni yn unol â rheoliadau a wnaed o dan adran 221 o Ddeddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016.<br><br>*Sylwer: Rhaid i'r dyddiadau penodedig fod o leiaf bedair wythnos o'r diwrnod y rhoddwyd yr hysbysiad blaenorol i ddeiliad y contract. Ni chaniateir i'r hysbysiad hwn gael ei roi cyn diwedd y cyfnod rhybuddio a bennwyd yn yr hysbysiad blaenorol.* |

| **Rhan F: Llofnod** | |
|---|---|
| Llofnodwyd gan y landlord, neu ar ei ran:<br>…………………………… | Dyddiad:<br>…………………………… |